A report such as this cannot be complete without reference to the work of our officers and staff. The Council wishes to place on record its deep appreciation of the work that has been done, and the efficient and sympathetic way it has been carried out.

FINANCE

	£	s.	d.	£	s.	d.
The work of the Council described in the foregoing pages of this report involved an expenditure of				20,603	13	9
This expenditure was made from the following sources:—						
Cr. Balance brought forward at 1st April, 1952 ..	459		15 2			
GRANT AID FOR SPECIFIC PURPOSES:						
The Development Commission	7,200		0 0			
Ministry of Education	1,428		0 0			
Ministry of Health	667		0 0			
Glamorgan County Council	5,650		0 0			
Carmarthen County Council	800		0 0			
National Corporation for the Care of Old People	1,000		0 0			
Carnegie United Kingdom Trust	662		10 0			
Coal Industry Social Welfare Organisation (South Western Division Welfare Committee)	100		0 0			
	17,667		5 2			
OTHER INCOME:						
Subscriptions, Donations and Contributions from Associated Organisations ..	729		11 1			
Donations from Men's and Women's Clubs	1,026		11 10			
Drama Library Service	276		4 9			
Workshop receipts	287		5 1			
Rent—Sub-letting	130		0 0			
National Council of Social Service for services	250		0 0			
Affiliation Fees	32		0 0			
Miscellaneous Income	200		2 6			
Dr. Balance on General Funds A/c	£258		12 3			
Less Cr. Balances:						
Rural Services A/c	£246		8 11			
County Drama A/c	37		10 0			
	253		18 11			
Debit Balance at 31/3/1953	4		13 4	4		13 4
				£20,603	13	9£20,603
					13	9

ADRODDIAD BLYNYDDOL

1952 - 1953



RHAGAIR

Tyfodd y Cyngor ac changu ei derfynau'n ddirfawr er pan gorfforwyd ef yn Gyngor Cymru gyfan. Golyga tyfiant iach nid yn unig ehangu, eithr unoli cynyddol.

Rhodddwn yma ddarlun o waith y Cyngor drwy Gymru. Dengys yr Adroddiad y modd y cyd-lafuria Trefnyddiaeth Wirfoddol ag Adrannau'r Llywodraeth, ac Awdurdodau Lleol, ac Ymddiriedolaethau, heb goll'r nodwedd wirfoddol, ond parhau i alw am gymwynasau personol i gyrraedd ei nod.

BYWYD GWLEDIG

Diboblogi yw rhwystr pennaf Cymru Wledig. Ymhlith y pethau a gyfrif am yr ymfudo o gefn gwlad y mae unigrwydd, dirywiad crefftau a diwydiannau gwledig, a diffyg cyfleusterau cymdeithasol a diwylliannol.

Er mwyn cyrraedd eu bwriadau yng Nghymru, rhoes y Comisiynwyr Datblygu y cyfrifoldeb ar y Cyngor. Cefnogant Gynghorau Cymdeithas Wledig, a Swyddfa Diwydiannau Gwledig, a rhoddant sylw manwl i bob cynnig ymarferol i atal teneuo poblogaeth cefn gwlad.

Amcan y Cyngor felly yw trwytho cefn gwlad ag ynni newydd, ac atal y dylifiad pobl i'r ardaloedd dinesig a diwydiannol, drwy ddarparu'r cyfleusterau technegol, a diwylliannol, a chymdeithasol, ac adloniadol angenrheidiol. Credwn fod cynhyrchu bwyd mor hanfodol i bwrs y genedl ag yw cynhyrchu nwyddau allfor, pwnc sydd yn cael llawer mwy o sylw, ond o'r braidd y sylweddolwn bwysiced i'r amcan hwn yw'r crefftwr gwlad.

Cynghorau Cymdeithas Wledig.—Y corff delfrydol i hyrwyddo'r amcanion hyn yw'r Cyngor Cymdeithas Wledig, a drefnir i ofalu am Sir gyfan. Rhoddir grantiau i'w gynorthwyo gan y Comisiynwyr Datblygu, a'r Awdurdodau Sir; gwasanaethir ef gan actodau a chanddynt gyfoeth o brofiad lleol. Gofalant hwythau am orchwylion hanfodol, megis darparu Neuaddau Pentref a Meysydd Chwarae, ac am weithgareddau diwylliannol megis Cerddoriaeth a Drama yn y Pentrefi, ac am yr ochr ddiwydiannol, drwy gefnogi a moderneiddio crefftau a dulliau gwledig. Y mae eisoes yng Nghymru naw o'r cyfryw Gynghorau Cymdeithas Wledig yn y siroedd canlynol—Môn, Arfon, Caerfyrddin, Dinbych, Trefaldwyn, Meirion, Mynwy, a Phenfro, a threfniant diweddar y Cyngor i hyrwyddo'r gwaith yng Ngheredigion. Gweithreda'r Cyngor Gwasanaeth Cymdeithasol yn uniongyrchol lle nad oes yr un trefniant Sirol, a chyflawnit y gwaith gan ei Swyddogion allanol, ym Morgannwg, Brycheiniog, Maesyfed, a Sir y Fflint.

Neuaddau Pentref

Y mae Neuadd Bentref, wedi ei chynllunio'n dda, yn hanfodol ym mywyd y wlad, fel man cyfarfod ashepgor ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol cyffredinol ac ar gyfer amgylchiadau arbennig. Pery'r cyfyngu caeth ar wario

yn destun gofid a phair fod adeiladu bron yn amhosibl. Breuddwydion heb eu sylweddoli yw llawer cynllun, er bod cryn symiau o arian wedi eu casglu drwy ymdrechion lleol. Ar dro codir Neuadd newydd drwy gyd-weithio lleol ymroddgar, a gwirfoddol, er enghraifft, Llystfaen a Cascade, ym Morgannwg, a Llanandras ym Maesyfed. Adeiladwyd Neuaddau yng Nghorsgoch, Pontgarreg, Caerweddros, a Choedybryn, yng Ngheredigion; a bellach cyfrifoldeb Cyngor Cymdeithas Wledig newydd y Sir yw parhau i ddatblygu'r gwaith. Y mac nifer o gynlluniau ym myrd siroedd Gogledd Cymru, a gorfennwyd yn ystod y flwyddyn yng Ngwespyr, Sir y Fflint, neuadd dros dro, a'i hagor.

Meysydd Chwarae

Y Cyngor sy'n gofalu am Ysgrifenyddion i'r gwaith yng Nghymru, ar ran Cymdeithas Genedlaethol Meysydd Chwarae. Daethpwyd i gyswilt gweithredol ag amryw gynlluniau wedi eu datblygu i raddau mwy neu lai. Derbyniodd deunaw cynllun ym Morgannwg a Brycheiniog a Maesyfed o gwmpas £1,800 ar ffurf grantiau; ac yr ydym yn llawen yn cyhoeddi ddarford i Gymdeithas Meysydd Chwarae Morgannwg rannu £800 rhwng Awdurdodau Lleol i sicrhau offer i amryw glybiau chwarae.

Y mae deg cynllun yn Siroedd y Fflint, Arfon, a Dinbych wedi derbyn grantiau hyd at £1,665, a gwneir apêl am £1,350 ar ran tri arall.

Cynghorau Plwyf.—Y mae'r Cyngor Plwyf yn rym ym mywyd y wlad; geill ei actodau ddwyn cyfoeth o wybodaeth a phrofiad lleol i'r Cyngor Sir a'r Cyngor Dosbarth Gwledig. Perthyn i bob rhan o Gymru ei Chymdeithas Sir sy'n gefn i'r Cynghorau Plwyf drwy gyd-ymgyngori a chyd-weithredu. Ymgysylltodd mewn amryw siroedd o 70 y cant i 80 y cant o'r Cynghorau Plwyf â'u Cymdeithas Sir.

Gweithreda Swyddogion Gwledig y Cyngor fel Ysgrifenyddion y Cymdeithasau Sir ym Morgannwg, Brycheiniog, Maesyfed, a Sir y Fflint (a hyd yn ddiweddar, Geredigion).

Bu ymdrafod brwd ar anghenion cefn gwlad yng Nghyrdau Chwarter y Cymdeithasau Sir, a chroesawyd siaradwyr medrus. Ddeliwyd â chwestiynau cyfreithiol drwy gyfarwyddiaid lleol neu drwy'r Brif Swyddfa Genedlaethol.

Swyddfa Diwydiannau Gwledig

Trefna'r Swyddfa'r gwasanaeth technegol sy'n hanfodol i fywyd diwydiannol cefn gwlad. Rhoddir hyfforddiant yn y cyfryw bynciau â Pheiranyddiaeth, Gwaith Goed, Cyfrwyaeth, Gofaniaeth a Gwaith Hacarn-gyr; ac y mae Hyfforddwyr Teithiol mewn Oxi-Asetulin ac Ate-asio ac mewn trwsio'r Tractor a'r Rhwymwr. Trefnir benthyciadau er mwyn sicrhau'r offer diweddaraf, a moderneiddio gweithdai. Estynnir pob cyfle i'r crefftwr gwlad i'w addasu ci hunan at alwadau heddfw, ac i ddiogelu ei le traddodiadol yn y gymdeithas wledig.

Gweithia Staff y Swyddfa o Swyddfa Machynlleth, a chynnwys Swyddog Dosbarth, Swyddog Brethynnau, Cynlluniwr Brethynnau, Swyddog Prisoedd, a thri Hyfforddwr. Cysylltir Trefnyddion Diwydiannau Gwledig â'r Cynghorau Cymdeithas Wledig, a dyry'r Swyddfa ei gwasanaeth drwy'r Cymdeithasau Sir.

Arolwg ar y Diwydiannau Gwledig

Credwn fod gwir angen am arolwg cyflawn ar Ddiwydiannau Gwledig Cymru, ac wele'r *cam cyntaf*. Seliwyd ef ar y diwydiannau a'r crefftwyr y gwyr y Trefnyddion Diwydiannau Gwledig amdanynt—gan mwyaf drwy gysylltiadau personol. Ymgais ydyw i gyflwyno, mor gryno ag y gallwn, ryw syniad am faint ac changder y gwaith. Dengys un peth a'n blina'n fawr, sef prinder prentisiaid.

Ni hawliwn fod popeth i mewn, a gobcithiwn allu'n fuan gyhoeddi arolwg llwyrach.

Clybiau a'u Haelodau

Y mae 114 Clwb Gwasanaeth Cymdeithasol i Ferched, a 40 i Ddwyonion ym Morgannwg a Chaerfyrddin, a thros chwec mil o aelodau. Er bod amrywiaeth yn niddordebau a gweithgareddau'r clybiau hyn, sefydlwyd hwy a'u llywio ar yr un cgywyddorion cyffredinol.

Pobl leol yn ddleithriad a gymet y cam cyntaf i furfio clwb. Nid yw'r Cyngor yn ymyrryd i gychwyn y gwaith. Ei nod, yn hytrach, yw bod wrth law i gefnogi a chynorthwyo, ac yna, wedi sefydlu'r clwb, rhoddi'r gwasanaeth angenrheidiol.

Fel arfer codir ychydig dâl aelodaeth, a gwneir ymdrechion lleol drwy Werthiannau, Dramâu, a Chyrchoedd Whist er mwyn cynnal y Clybiau, a thalu am wresogi a glanháu a goleuo, ac, ar adegau, am rent a threth.

Rheolaeth ddemocrataidd sydd ar y Clybiau. Eitholir y Pwyllgor Rheoli mewn cyfarfod cyffredinol o'r aelodau. Nid oes gan y Cyngor unrhyw fesur o reolaeth, ac nis cais, eithr dyri ei wasanaeth mewn cynghori a hyfforddi. Eto pwysig yw cofio yr ystyria'r aelodau eu bod yn "perthyn" i'r Cyngor.

Clybiau Merched

Perthyn i'r Cyngor yn y Debeudir dair adran—y Gorllewin, Canolbarth Morgannwg, a Phontypridd gyda threfnydd yn gyfrifol am arolygu'r gwaith ym mhob un i hyrwyddo a chefnogi gwaith y Clybiau, i ymweld â hwynt a'u cynghori, ac i drefnu eu rhaglenni gwaith.

Cyferfydd y Clybiau fel arfer am ddwy neu dair awr ddwywaith yr wythnos. Y mae Clybiau'r Gwŷr, mewn rhai ardaloedd, yn rhoi benihyg eu hadeiladau hwy, neu rannau ohonynt, i'r Gwragedd. Mewn manau eraill defnyddia'r Clybiau Neuaddau'r Glowyr, neu Ysgollon, neu Ysgoldai Capeli, neu dai preifat.

Tueddiadau lleol a benderfyna nodwedd y gweithgareddau ond gofynnir, gan amlaf, am Waith Llaw, a Chrefft Cadw Tŷ. Y diddordebau sylfaenol mewn Gwaith Llaw yw Gwniadwaith, brodio, cwiltio, gwneud rygiau, ac ail dactl tŷ. Y mae amryw hefyd yn dysgu gwaith lledr, plethu gwaiil, a'r crefftau ysgeifn. Ym mhilith diddordebau Cadw Tŷ, coginio, cyffeithio ffurwythau, cynllunio'r cartref, a gofalu am y cartref, sy'n apelio fwyaf. Rhoddi'r hyfforddiant hefyd ar werth maethlon bwydydd, ac ar sut i drefnu cyllideb yr aelwyd, etc.

Dyri amryw Glybiau le amlwg i Gerddoriaeth a Drama, ac i gyfeusterau addysg gyffredinol drwy ffilmiau a darlithiau poblogaidd.

Dymunol yw gallu cofnodi cynnydd yn natblygiad y Clybiau Merched yn ystod y flwyddyn. Sefydlwyd clybiau newydd yn Llanddoged, a Nantgarw, a'r Ward Orllewinol ym Mhenybont. Y mae dros 4,200 aelod mewn 114 Clwb.

Cynhaliwyd yn ystod y flwyddyn bedair a deugain ysgol undydd i wneuthur cwrtidau plu, ac i ddysgu brodio, a chwiltio, a gwnio dillad, a gwneuthur gorchuddion dodrefn, tynio ffurwythau, crasu â burum, ac addurno teisennau. Y mae diddordeb ym mhob un o'r pynciau hyn, ac ar y cyfan, po fwyaf fyddo gwerth ymarferol y grefft, mwyaf yn y byd yw ei hapél.

Wele daflen o'r ymweliadau hyfforddi yn ystod y flwyddyn. Teifl beth goleuni ar y gweithgarwch:

	<i>Orian Hyfforddi</i>	<i>Yn brwsennol</i>
Crefftau Llaw	4,907	38,330
Crefft Cadw Tŷ	1,732	19,152
Drama	150	1,800
Darlithiau a Ffilmiau ..	118	6,120

Ymweliadau Trefnyddion i Gyfarwyddo 1,146.

Bu Clybiau'n ymweld â'i gilydd, a chynyddodd yr arferiad, a rhoi cyfleusterau i drafod anawsterau'r clybiau. Bu felly'n foddion i ddwyn yr aelodau i gysylltiadau cymdeithasol buddiol â'i gilydd, a chrëwyd diddordebau a gweithgareddau newydd, ac ehangu'r bywyd clwb.

Y mae i'r Ddrama le pwysig yn rhaglenni'r clybiau. Cynhaliwyd ysgolion a pherfformio dramâu gan glybiau ar y cyd. Trefnwyd Cystadleuaeth Ddrama, a flurfiodd aelodau clybiau eu cwmnïau eu hunain i lwyfannu chwaraeon un-act yn eu hadeiladau eu hunain neu mewn neuaddau lleol. Dewiswyd o'u plith chwe chwmmi ar gyfer y gystadleuaeth derfynol ym Mhafiliwn Porthcawl am "Darlan y Cyngor" (rhodd hael Cynghair Drama Morgannwg). Clwb Merched Bryntirion a enillodd y wobr, a gosodwyd Pencoced, clwb newydd, yn ail. Y mae argeolion y bydd cystadiu brwd y flwyddyn nesaf i sicrhau cartref newydd i'r darlan.

Y mae agwedd arall ar waith clwb sy'n haeddu sylw arbennig, sef gwasanaeth gwirfoddol yr aelodau i gymdeithas. Cynrychiolir llawer ar bwyllgorau lleol; gwasanaetha rhai aelodau ar Fyrddau Lleol, a gwneir llawer o waith yn rhydd ac yn rhad i helpu'r Ymchwil Ganer, a Lles y Deillion, ac amryw o achosion eraill cyffelyb. Dymunwn gyfeirio'n arbennig at eu hymateb clodwiw i'r apêl ar ran y "Trefniant i Loddfa Cyni'r Llifogydd." Casglwyd miloced o ddilladau da, a'u trosglwyddo i Swyddfa'r Cyngor yng Nghaerdydd i'w trefnu a'u danfon ymaith. Cydnabuwyd yr haelioni hwn gan Anrhydeddus Lysgennad yr Iseldiroedd. Danfonwyd rhoddion ariannol hefyd i Gronfa Llifogydd yr Arglwydd Facr.

Cymraeg

At hyn, bu'r Cyngor yn chwilio am ffordd i sicrhau cyfleusterau i ddysgu Cymraeg yn y Clybiau. Bach yw'r galw am hyn, ond y mae'n bod, heb os, ac fe dyf os trefnwn ar ei gyfer.

Cymdeithas Genedlaethol Clybiau Merched

Rhoes aelodau Cymru wahoddiad i'r Gymdeithas, ac yn gynnar eleni cynhaliodd hithau ei Chwrdd Blynyddol yng Nghaerdydd, yn cynrychioli aelodau clybiau o bob rhan o Brydain. A Miss M. L. Harford yn y Gadair, bu'r cyfarfod yn dra llwyddiannus yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.

Y mae'n hyfrydwch gennym gofnodi ddarvoud ethol Mrs. David Jenkins U.H., sy'n aelod o'n Pwyllgor Gwaith, ac yn un o'n haelodau clwb mwyaf eiddgar, yn Gadeirydd y Gymdeithas am y flwyddyn. Llongyfarchwn Mrs. Jenkins am yr anrhydedd a roddwyd arni, a dymunwn iddi flwyddyn lawen a llwyddiannus.

Clybiau'r Gwŷr

Amcan cefnogi dynion i weithio yn y Clybiau yw eu hysbrydoli i ddewys gwaith amser hamdden, a dilyn y gwaith hwnnw yng nghwmni cyfeillion.

Ni allwn bwysleisio gormod na fwriedir yr help a'r gefnogaeth a roddir i'r aelodau i ddatblygu'r cyfryw ddiddordebau, er mwyn hyfforddi mewn galwedigaeth newydd, nac am y gallent ychwanegu at eu cyflog drwyddynt—ni wneir y pethau hyn, ac ni fwriedir eu gwneuthur—eithr yn hytrach fel cyfrwng y llawenydd a ddaw i ddyn o wneuthur â'i law ei hun waith creadigol ac adeiladol, a'r boddhad dwfn a gaiff o roi ei orau yn ei waith.

Dyma ddefnydd y Cyngor wrth ddewis Trefnydd Clybiau a naw athro i hyfforddi rhyw ddwy fil o aelodau mewn deugain Clwb ym Morgannwg a Chaerfyrddin.

Amrywia'r Clybiau yn eu brwdfrydedd a'u diddordeb; ond y prif atyniadau yw crefftwiaith, gorchuddio dodrefn, gwaith gwéydd; gellir cael hyfforddiant mewn tottri leino, rhwymo llyfrau, a cherio coed hefyd. Dyma dalen yn dangos rhif ymweliadau'r hyfforddwyr.

	<i>Orian Hyfforddi</i>	<i>Yn bresennol</i>
Crefftwiaith	2,200	19,800
Gwneuthur gorchuddion dodrefn	1,532	15,320
Gwaith gwéydd	600	4,800
Gweithgareddau eraill ..	150	900

Daw aelodau'r Clybiau o bob adran mewn cymdeithas, ond yn naturiol ddigon, glawyr yw'r mwyafrif llethol. Yn fiodus, aeth dyddiau'r dirwasgiad a'r diffyg gwaith cyffredinol yn yr ardaloedd glofol heibio, ond ymledodd cwmwl du arall dros gylchoedd diwydiannol y Deheudir. Colodd miloedd o lowyr eu gwaith un ai drwy ddamweiniau neu drwy glefydau erchyll Llŵch y Garreg a'r Glo. Gwylia awdurdod priodol eu hanghenion economaidd, eithr erys anhawster " amser hamdden gorfodol " i'w ddatrys. Testun llawenydd yw fod y Clybiau Gwasanaeth Cymdeithasol wedi cwrdd â'r anhawster i dros 800, a rhoi iddynt fwynhâu gwaith buddiol, a chymdeithas eu cyd-weithwyr gynt.

Cawsom arwydd o werth yr agwedd yma ar y gwaith mewn llythyr heb ei geisio oddi wrth un selod clwb yn dioddef gan glefyd llwch y glo. Wele ddyfyniad :-

" Rhestrwyd fi ym Mai 1948 ym mhlith y glowyr sy'n dioddef gan bla arswydus llwch y glo, a bu gorfod arnaf adael y llofa. Yr oedd y dydd ar ei hyd gennyf; ond heb ddim i'w wneud, i mi aeth yn ddiffas o hir. Yna sylweddolais ystyr y Canolfan Gwasanaeth Cymdeithasol i mi. Gallwn roddi fy mryd ar rywbeth yno, a dianc rhag meddwl yn ddibaid am fy nolor difaol. Yn y dosbarth gwaith coed dechreuais lunio celfi dan ofal hyfforddwyr parod bob amser â'i gymorth i'm rhoi ar hen y llwybr. Yr oedd yr offer yno ar fy nghyfer a'r canolfan yn agored drwy'r dydd. Cawn lawer o help gan aelodau eraill a wyddai rywbeth am gwaith, a chynorthwya'r Ysgrifennydd fi i gael y coed angenrheidiol."

Canolfannau ac Undebau Cymdeithasol

Yr un yw amcan Canolfannau Cymdeithasol yn y dref ag amcan y Neuadd Bentref. Adeilad ydyw lle y cyferydd cymdogion yn gyfartal i ddilyn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol ac adloniadol i ddefnyddio'u hamdden yn ddoeth a llawen. Rheolir yr adeilad a thretnir y gwaith drwy gydweithrediad sefydliadau leol, a gelwir y cymdeithas yn Undeb Cymdeithasol.

Erys y traddodiad cymdeithasol, sydd a'i wrciddiau'n ddwfn yn macar Cymru, yn ein pentrefi a'n trefi bychain, eithr diflannodd yn ymarferol o ardaloedd y dinasoedd mawr, ac yn arbennig o'r ystadau tai newydd, lle'r ymgynullodd minteoedd o bobl oedd yn ddiethr i'w gilydd i ffurfio cymdeithasau newydd mewn amser byr heb gyfleusterau bywyd cymdogol ar eu cyfer. Gwnânt ymgais i feddiannu'r bywyd hwnnw drwy ffurfio Cymdeithasau Tenantiaid i wella'r manteision cyhoeddus. Datblyga'r thain yn fynych i fod yn Undebau Cymdeithasol i ddatrys yr anawsterau materol, ac yna daw'r ymdeimlad o'r angen am y bywyd cymdogol unol.

Arafwyd datblygiad y cynlluniau cymdeithasol yn fawr gan y cyfyngu parhaol ar wario, fel na chaniatawyd un cynllun heblaw'r rhai a weithredir gan lafur gwirfoddol heb ddefnyddiau sydd dan reolaeth. Ceir grantiau o ryw 30 y cant o holl gost y cyfryw gynlluniau gan y Weinyddiaeth Addysg, a gellir cael grant gan yr Awdurdod Lleol (yn arbennig o Gronfa'r Eglwys yng Nghymru) neu gan yr Awdurdod Addysg Lleol, ac y mac Trefnwyr Lles Cymdeithasol y Diwydiant Glo yn barod i gynorthwyo yn y cylchoedd glofaol. Cyfraniadau lleol, yn gyffredin drwy gasglu o dŷ i dŷ, neu drwy drefniadau eraill i gasglu cronfa, sy'n gyfrifol am y gweddill. Golyga hyn lafur trwm i'r trefnwyr, ac amynedd yn y trigolion sy'n gorfod cyfrannu weithiau am ffynyddoedd cyn gweled ffwrth eu lafur. Yn ystod y ffwyddyn rhwystryw peth ar yr ymdrechion hyn gan y prinder arian cyffredinol, a chan amryw apeladau cenedlaethol am gymorth, a'r paratodau i ddathlu Coron Ei Mawrthdy'r Frenhines.

Er gwaethaf yr anawsterau hyn, pery cymdeithasau mewn amryw ardaloedd i ymdrechu i gasglu'r cronfeydd angenrheidiol, ac aethant ati yn finteioedd bychain gwirfoddol i godi eu hadeiladau. Fel hyn y llwyddwyd, yn ystod y ffwyddyn, i agor Canolfannau newydd ym Mhentwyn (Abersychan), Penrhieffer (Trewiliam), a Maes Tryfan (Bangor)—ac y mac'r gwaith ac gerdded ym Mochdre (Bae Colwyn), Penllwyn (Pontllanfraith), Margam (Port Talbot), a Glan y Môr (Port Talbot). Ehengir yr adeiladau yn Llanbedr Pont Steffan a Llandaf am fod gwaith y cymdeithasau yn galw am hynny. Yn fuan addesir festri capel yn Ynystawe i fod yn ganolfan Cymdeithasol. Daeth hen gapel i feddiant Awdurdod Lleol Doc Penfro, ac addesir hwnnw at yr un pwrpas. Gosododd Awdurdodau Caerdydd Dŷ Heath ar wasanaeth Cymdeithas Dinasyddion Heath.

Yn y maes hwn gwasanaeth y Cyngor, gan mwyaf, yw helpu i ffurfio Undebau Cymdeithasau, a sefydlu Canolfannau Cymdeithasol, cyngori ar faterion cyfreithiol a dogfennau, trafod ar ran y cymdeithasau â chyrrif cyfreithiol ac Adranau'r Llywodraeth, rhoddi cyngor ar faterion pensaernïol a thechnegol, a rhoi cyfarwyddyd cyffredinol ar holl agweddau gwaith y gymdeithas. Caif chwe ugain cymdeithas drwy Gymru y gwasanaeth hwn; ymgysylltodd chwech ohonynt â'r Cyngor, un â Chynghrair Cenedlaethol yr Undebau Cymdeithasol, a derbynwyd pedair arall yn aelodau o'r ddau fudiad.

Bu ymgynghori â'r Awdurdodau Lleol, y Weinyddiaeth Addysg, Y Weinyddiaeth Dai a Llywodraeth Leol (Swyddfa Cymru), a Threfnwyr Lles Cymdeithasol y Diwydiant Glo. Cafwyd cyfarwyddyd buddiol gan y Cyngor Cenedlaethol Gwasanaeth Cymdeithasol a Chynghrair Cenedlaethol yr Undebau Cymdeithasol, a ddanfonodd ei Gyfarwyddwr Adeiladau i ymweld â Chymru deirgwaith ynglŷn â'r Canolfannau Cymdeithasol y bwriedid eu sefydlu. Bu Ysgrifenyddion Cyngorau Cymdeithas Wledig Cymru yn gymorth mawr ar

bob adeg. Darpatodd Cyngor y Celfyddydau gyfres newydd o gopiau o waith arlunwyr enwog, a rhoi eu benthyg am dai bychan i'r Canolfannau. Darlledwyd ymgom ar Ganolfannau Cymdeithasol Cymru o orsaf y Gorfforaeth Ddarlledu yng Nghymru, ac ymdraffodaeth rhwng Corfforaeth Ddatblygu Cwmbrân â chyngorwyr Undeb Cymdeithasol yn y dref newydd.

LLES HEN BOBL

Pan sefydlwyd yn ddiweddar un o'r deg Pwyllgor Sir Lles Hen Bobl lluniodd rhywun ymadrodd hapus yn awgrymu'n gryno waith y cyfryw hwyllgor— "Heb gystadlu â neb: eithr cyd-weithredu â phawb." Gellir cymhwyso'r un geiriau at Bwyllgor y Cyngor sy'n delio â Lles Hen Bobl, ac sydd bellach yn bumpt oed.

Trwy Gymru gyfan y mae Adrannau Llywodraeth, ac Awdurdodau Lleol, a llu o Gymdeithasau Gwirfoddol yn brysyr yn y maes hwn. Un o amcanion pennaf ein Pwyllgor ni yw cyd-drefnu'r gweithgareddau hyn fel na byddo bwch yn y gwaith, na'i ddyblu'n ofer. Yn 1950 trefnodd y Pwyllgor y Gynhadledd gyntaf i Gymru oll drafod Lles Hen Bobl, a bu datblygu mawr mewn canlyniad. Bellach yn 1953, cynllunio'r Pwyllgor antur newydd drwy drefnu "Wythnos Hen Bobl Cymru" Medi 9—13. Y mae'n hanfodol uno'r holl ddi-ddordebau yn y peth hwn a'r holl syniadau er mwyn sicrhau llwyddiant y bwriad, sy'n newydd yng Nghymru.

Argoel dda yw bod Bwrdd Iechyd Cymru wedi cymeradwyo'n hamcan, ac yn cydweithredu â ni. Trychineb mwyaf difrifol yr hen yw eu hunigrwydd, a'u caethiwo i'w tai. Geilw'r mater tra phwysig hwn am ystyriaeth ddwys, a chaiff sylw cynyddol gan ein hamryw Bwyllgorau Lleol Lles Hen Bobl yng Nghymru. Gwneir arolygon a chedwir rhestrau o'u henwau. Gyda'r cydweithrediad sy'n anhepgor â'r adrannau Awdurdodau Lleol priodol, sicrhair cymorth ymarferol yn ddioed i'r neb a fo mewn angen.

Amlygwyd yn ddiweddar iawn yr angen am wybodaeth o'r ddwy ffynhonnell yma mewn arolwg ar fywyd yr hen yn Lerpwl. Datguddiwyd mai 2 y cant o'r sawl yr ymwelwyd â hwy oedd wedi eu cofrestru gyda meddyg, yn brcifaf, neu drwy'r Gwasanaeth Iechyd, am eu bod yn synied ar gam na chaent ofal meddyg heb eu bod wedi eu hyswirio. Y maent yr un mor anwybodus ynglŷn â'r amryw fuddion eraill sy'n rhydd iddynt drwy Ddeddf Cymorth Cenedlaethol 1948. Dylai goleuo a chyfarwyddo yn y pethau hyn fod yn rhan bwysig o wasanaeth y bobl a drefnir i ymweld â'r hen.

Llafuriodd nifer o hwyllgorau lleol drwy Gymru i drefnu darparu adedlatau adloniant i bobl wedi ymdeol. Yn ystod y flwyddyn agorwyd lleoedd cang a thra chyfleus yng Nghwmgwrach, Cwm (Mynwy), Garnddiihaith, Porth, Nantgarw a Phontymoel. Y mae gennym hyder y bydd adedlatau cyffelyb yn barod erbyn diwedd y flwyddyn yn Nelson, Caerdybi, Ystalyfera, Beddionog, Tir-ffil, Maesteg, Glyn Ebwy, a manau eraill. Trefnodd amryw o'r lleoedd hyn yr agor swyddogol i fod yn ystod Wythnos yr Hen Bobl ym Medi.

Yr ydym mewn adroddiadau o'r blaen wedi cydnabod yn ddiolchgar help arbennol hael Corfforaeth Genedlaethol Gofal Hen Bobl i'r hwyllgorau oedd yn gyfrifol am y cynlluniau hyn. Buasai'r gwaith, gan mwyaf, ac efallai'r cwbl, heb ei orffen oni bai am y cymorth hwn.

Blin gennym orfod cofnodi na cheir grant bellach o'r ffynhonnell hon. Dywed neges swyddogol a gawsom cieni "Na ddry'r Gorfforaeth dros dro

ystyriaeth i unrhyw apél am gymorth ar gyfer Cartrefi neu Glybiau i'r hen." Cytunwn â phennawd yn un o newyddiaduron Cymru "Ergyd syfrdanol i hen bobl yng Nghymru." Sylweddola'r gweithwyr yn y maes hwn nad ydym eto ond wedi braidd gyffwrdd ag ymylon y broblem.

Gyda'r gobaith y gwél y Gorrforaeth Genedlaethol yn fuan yn dda ail ystyried y mater, priodol yw inni gofnodi'n gryno'r buddiannau a estynnodd hi i'r mudiad Clybiau yng Nghymru.

Cafwyd grantiau gan y Gorrforaeth Genedlaethol am gyfnod o bedair blynedd i helpu ynglŷn â chynlluniau wedi eu cymeradwyo. Y mac 36 clwb yn y Dywysogaeth un ai wedi eu sefydlu, neu ar y ffordd i'w cwpláu; methodd un cynllun er bod grant o £400 wedi ei threfnu iddo; cynigiwyd £250 i un arall, ond nis derbyniodd, am fod yr arian angenrheidiol wedi dyfod i mewn drwy ffyrdd eraill. Cyfanswm grantiau'r Gorrforaeth i Gymru oedd £13,855, yn amrywio o £85 at adgyweirio hen beiriandy yn Llwynypia, hyd at £650 am adeilad newydd yng Nghaerdybi, a £750 i'r un amcan yn Hirwaun a Maesteg. Erys rhai apeliadau i'w hystyried am eu bod wedi eu gwneud cyn i'r Gorrforaeth benderfynu atal y grantiau. Rhaid bellach i bob Pwyllgor Lleol ddyblu ei ymdrechion, a chwilio am gymorth ariannol mewn cyfeiriadau eraill.

Yr oedd cynrychiolaeth gref o Gymru yng Nghynhadledd Genedlaethol Lles yr Hen Bobl yn Scarborough yn Ebrill. Pwysleisiodd y Gweinidog Llafur yn ei arith angen diwydiant am gyfranlad parhaol yr hen weithwyr ac am eu profiad. Agorwyd trafodaeth hefyd gan swyddog y Cyngor ar angen hen bobl sy'n wael eu hiechyd am Gartrefi ryw hanner y ffordd rhwng Ysbytyau'r llywodraeth a chartrefi preswyl, neu gartrefi eraill.

Bu tyfiant calonogol yng ngwaith Pwyllgorau Lles Gwirfoddol Siroedd Cymru, a chynyddodd gweithgareddau eu hamryw bwyllgorau lleol. Da fyddai i bob Pwyllgor Sir a Phwyllgor Burdeisdref ystyried a dilyn esiampl Siroedd Mynwy a Chactfyrdin, a sicrhau gwasanaeth siaradwr sy'n arbenigwr yn eu Cyfarfodydd Blynyddol, a chyfarfodydd pwysig eraill. Ychwanegwyd yn fawr droeon at ddiddordeb y cyfryw gyfarfodydd gan anechiadau addysgiadol y Dr. A. R. Culley, Aelod Meddygol ar Fwrdd Iechyd Cymru, ar rai o agweddau meddygol iechyd y sawl sy'n heneiddio.

Deil llawer iawn o glybiau i groesawu'r Gwasanaeth Llyfrgellof, a gwncir popeth sy'n bosibl ar ymweliadau â'r Gogledd i gwrdd â'r galwadau yno am lyfrau Cymraeg. Ymgysylltodd amryw o glybiau gwledig Morgamwg â'r Llyfrgell Sir Deithiol, a dug hynny fudd mawr i'r aelodau.

Enillwyd profiad cyfoethog gan y llu o weithwyr meddygol, a gweinyddol, a chymdeithasol sy'n ymwneud â lles cin 335,000 a gyrhaeddodd oed ymdddol yng Nghymru, ac arweiniodd hyn ni i ddau gasgliad sicr:—

1. Dylem wneuthur popeth a allwn drwy ddeddf ac yn wirfoddol i alluogi hen bobl i *aroz yn eu cartrefi eu hmain, a, hyd y bo modd, yn eu cynefin.*
2. Dylem gydnabod yn bendant nad afiechyd yw benaint, ac ni ddylid ei drin fel y cyfryw, nac ystyried y bobl a gyrhaeddodd oed pensiwn yn ddoesbarth ar wahân.

"Efallai fod yr enghreifftiau disglair a gawn yn y Prif Weinidog ac Arweinydd yr Wrthblaid wedi dysgu'r meddygon a'r gweithwyr cymdeithasol na ellir trin neb dros 65 fel dyn methodig o gorff neu wan o feddwl; os felly, nid hyn fydd y lleiaf o gynwynasau Syr Winston a Mr. Attlee i'w gwlad" (Cronic Llywodraeth Leol).

Gallwn ninnau gysylltu â hwy ein hannwyl a pharchus Elfed ac amryw eraill o'n hen arweinwyr a'n gwŷr cyhoeddus yng Nghymru.

DRAMA

Daeth deffroad eithriadol ym myd y Ddrama yng Nghymru, eto dyma'r unig wasanaeth addysgol pwysig sydd heb drefniant cenedlaethol i'w feithrin a'i hyrwyddo. Ceisiodd y Cyngor yn 1948 symud y diffyg. Cynhaliodd yng Nghaerdydd gynhadledd fawr a brwdfrydig o fudiadau gwirfoddol ac unigolion a chanddynt ddiddordeb yn y ddrama; a phenderfynwyd ffurfio "Cymdeithas Ddrama i Gymru." Ond oherwydd prinder arian, methasom â sylweddoli'n bwriad. Y mae'r Cyngor yn argyhoeddedig fod angen am y cyfryw drefniant, a disgwylwn am yr amser y bydd digon o adnoddau ariannol i sefydlu Cymdeithas Ddrama Genedlaethol i Gymru, ac i sicrhau staff. Yn y cyfamser bu Adran Ddrama'r Cyngor ers blynnyddoedd ar ei gorau drwy wasanaeth uniongyrchol yn ceisio llenwi'r bwlch.

Y LLYFRGELL DDRAMA A'R GWASANAETH OFFER

Y mae'r llyfrgell yn cynnwys dros ddeng mil o gopïau o chwaraeon a llawlyfrau, ac yn cwrdi â galwadau cannoedd o gymdeithasau drama amatur dewy'r Dywysogaeth, a chymdeithasau Cymraeg dros y ffin. Wele fesur y benthycu yn ystod y flwyddyn :-

<i>Setiau Dramâu</i>	<i>Copïau Unigol</i>	<i>Deitholion</i>	<i>Llaw Lyfrau</i>
629	3,759	148	166

Bu galw trwm hefyd am ein llenwi llwyfan a'n hoſier goleuo. Aeth y llenwi i 92 cymdeithas, a'r offer goleuo i 37.

GWASANAETH CYNGHORI

Trefnwyd Panel Cyngori ar gyfer pob Sir yng Nghymru. Gall unrhyw gymdeithas amatur sicrhau gwasanaeth cynghorwr yn ddi-dâl i siarad, a darlithio, a rhoi arddangosiadau. Bu chwe ugain a deg ymweliad, yn ystod y flwyddyn, â chymdeithasau amatur lleol, sefydliadau Merched, Cwmnïau Eglwys a Chapel, Clybiau Ieuencid, a Gildiau Merched y Trefi. Ymwelwyd ag ambell rihyrsal a helpu i wynebu anawsterau ynddynt. Rhoddwyd ysgyrsiau a darlithoedd ar ddewis drama, meim, symudiadau, trefnu'r chwaraewyr, coluro, llwyfannu, a chynhyrchu.

YSGOLION A CHYRSIAU

Cynhaliwyd Ysgolion Drama Bwrw'r Sul mewn cysylltiad â'r Cyngorau Cymdeithas Wledig ym Mon, Arfon, Ceredigion, Dinbych, Trefaldwyn a Mynwy. Daeth llawer ynghyd i bob un, a chawsant gyfarwyddyd medrus. Dymuna'r Cyngor changu'r cyfleusterau hyn i bob Sir. Croesawn ymholiadau oddiwreth y Cymdeithasau Sir hynny nad ymunasant eto â'r cynllun.

TEITHIAU DRAMA

Trefnodd y Cyngor ers rhai blynnyddoedd daith Ddrama Gymraeg. Yr ydych yn cofio Cwmni'r Cyngor, sef Cwmni'r Genhinen, yn chwarae "Pelenni Pitar," "Pobl yr Ymylon," "Doctor er ei Waethaf," "Gwylwch y Paent," a'r "Cybydd," "Hen Wr y Mynydd" a chofwch eu cynhyrchwyr galluog, Cynan, Mr. D. Haydn Davies a Mr. David J. Thomas.

Eleni teithiasom drwy'r Dehucdir gyda "Tartuffe" gan Moliere. Mr. David J. Thomas, y cynhyrchydd, a gyfieithodd y ddrama o'r Ffrangeg a'i haddasu. Llwyfanwyd golygfa fer o "L'Impromptu de Versailles" o flaen y brif ddrama. Ymddangosodd y Cwmni ym Mhenclawdd, Llanbeudry, Tregaron, y Barri, Aberaeron ac Ystalyfera, ac, ar wahoddiad, yng Ngŵyl Ddrama Garthwin, ac yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth. Bu'n rhaid gwrthod llawer o wahoddiadau eraill o bob rhan o Gymru, am amryw resymau.

Diolchwn o galon i bawb a roes gymorth yn y trefi a'r pentrefi yr ymwelom â hwy ac yn arbennig i'r Cynhyrchydd a'r Cwmni, a roesant wasanaeth teyrngar heb foddwl am dâl. Ni buasaf daith yn llwyddiant heb gydymdeimlad a help Cyngor y Celfyddydau.

PWYLLGOR DRAMA MORGANNWG (CYNLLUN CARNEGIE)

Trefnodd y Pwyllgor Sir amryw drafodaethau yn ystod y flwyddyn, a chadwodd gyswilt agos â'r Hafinc, a Sefydliadau Merched, a Gildiau Merched y Trefi, a chwmnïau Dramâu Clybiau. Ymdrechwyd yn arbennig i sicrhau arweinyddion cymwys ar gyfer cwmnïau newydd.

Ymwelodd y Trefnydd Sir dros saith ugain o weithiau ag amryw o'r cwmnïau, ac ef hefyd oedd yn gyfrifol am drefnu'r cystadleuthau dechreuol a Chystadleuach derfynol Drama Clybiau'r Merched. Yn ystod rhan ola'r flwyddyn ymunodd y Pwyllgor Sir ag Undeb Drama Mynwy i ofalu am gyrsiau hyfforddi i'r myfyrwyr oedd am eistedd arholiadau'r Bwrdd Drama Amatur.

SWYDDFEYDD CYNGHORI DINASYDDION A LLES CYMDEITHASOL

Parhaodd y Swyddfeydd hyn yng Nghymru gydol y flwyddyn i roi cyfarwyddyd cyfreithiol, ac ar bob math o broblemau teuluol a phersonol.

Y mae yng Nghymru bum Swyddfa a deugain. Yr oedd nifer yr ymholiadau a gofnodwyd yn 1952/53 yn ymyl 37,000. Nid yw'r swyddfeydd bychain yn danfon eu hystadegau, ond deliasant hwythau â llu mawr amrywiol o ymholiadau a phroblemau.

Fel y crybwyllwyd yn ein hadroddiad diweddaraf, cwtogwyd ein gwaith allanol am fod y Weinyddiaeth Iechyd wedi atal grantiau i Wasanaethau Canolog y Trefniant Cenedlaethol. Er hynny cadwyd cysylltiad agos a chydweithrediad â Chyrrif y Llywodraeth a'r Cyrrif Gwirfoddol. Dyrwy swyddog y Cyngor gyfarwyddyd i'r Swyddfeydd, a gweithreda fel swyddog cyswilt rhwng Gwasanaethau Rhanbarthol Cymru a Gwasanaethau Canolog y Trefniant Cenedlaethol; ac y mae'n aelod ar Bwyllgor Swyddfa Genedlaethol Cyngori Dinasyddion.

Ystyriwn yn ofalus ddiddordebau'r gymdeithas wledig, a chawn gydweithrediad gwerthfawr y Cyngorau Cymdeithas Wledig drwy eu gwasanaethau Sirol yn eu pencadlysoedd ac allan ar y maes.

Cynhaliwyd dau Bwyllgor Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru yn ystod y flwyddyn yng Nghaernarfon a Bangor. Rhoddwyd ysgyrsiau diddorol ac addysgiadol ar "Broblemau'r Teulu Heddiw" a "Gofal am yr Hen" i Swyddfeydd Cyngori Dinasyddion a gweithwyr cymdeithasol craill.

Ymwelodd myfyrwyr Cymdeithasog o'r Prifysgolion gartref a thros y môr â swyddfeydd arbennig, yn ystod eu cwrs hyfforddi, er mwyn gweld y gwaith drostynt eu hunain, ac er mwyn gwrandao ar ddarlithoedd.

LLES CYMDEITHASOL—GWSANAETH I'R UNIGOL

Ni chaniatâ natur gyfrinachol yr agwedd arbennig hon o waith y Cyngor i ni wneuthur dim mwy na chyfeirio'n gynnil at amrywiaeth y gwasanaeth hwn.

PROBLEMAU PERSONOL A THEULUOL

Seilir y gwaith yma ar wasanaeth i unigolion, dyna a rydd ei nodyn a'i batrwm iddo, gwasanaeth sy'n hawlio profiad, a synnwyr cyffredin, cydymdeimlad, a goddeigarwch yn hytrach na dilyn rhyw ffordd arferol uniongred o gynorthwyo.

Dywedodd rhywun mai'r "gefyddyd o helpu pobl mewn anawsterau yw eu cynorthwyo i wneuthur y defnydd gorau o'u hadnoddau eu hunain, ac adnoddau cymdeithas, a chael gafael ar ateb boddhaol a pharhaol i'w problem, a'u galluogi felly i fwynhau'r cysur mwyaf posibl, ac annibyniaeth, ac i roddi cyfraniad hyd eithaf eu gallu i'r gymdeithas y maent yn rhan ohoni."

Yn ystod y flwyddyn daeth mwy a mwy o broblemau a rhai mwy cymhleth i'r swyddog yng Nghymru. Gwnaethpwyd pob ymdrech oedd yn bosibl i sicrhau'r cymorth angenrheidiol i'r sawl a geisiodd help a chyngor neu i'w tywys at y ffunonellau a allai gyflawni eu hangen. Esgorodd amodau byw wedi'r rhyfel ar anawsterau newydd, a'r prif achosion yw problem tai, diffyg gwaith, a chyfeirio gweithwyr, o'r herwydd, i amgylchtyd newydd, gyda chanlyniadau difrifol i fywyd y teulu, a pheri anawsterau priodau ac anawsterau ynglŷn â mabwysiadu plant, a threfnu cyllideb y cartref, etc.

CYD-WEITHREDU A MUDIADAU ERAILL

Ar wahân i gyfle i ymboli'n uniongyrchol â'r Cyngor, rhoddwyd cymorth yn y Gwasanaeth Personol i Fudiadau Lles Tramor ac i Fudiad Lles y Teulu, a chyfeilyb fudiadau, a geisiodd help ein gweithiwr cymdeithasol. Gwnaethpwyd ymchwiliadau personol, ac ymwelwyd ag unigolion, a gwnaed adroddiadau, lle'r oedd galw am hynny.

LLES PERSONOL

(a) **Plant.**—Ceisiodd Ysgrifennydd Cyffredinol Cronfa Achub Plant help y Cyngor i weinyddu a gosod eu Cynllun Mechniaeth ar sylfaen foddhaol mewn rhanbarth yn y Deheudir. Drwy ymweliadau â'r cartrefi gwnaed arolwg llwyr a rhoddwyd adroddiad manwl ar bob achos. Adolygodd y Gymdeithas y Sefyllfa, a gweithredu ar gymeradwyaeth ein swyddog.

(b) **Iechyd a'r Gofal pan fo'r claf yn cryfhau.**—Bu ymweliadau â'r aelwydydd ar ran Ysbyty Brenhinol Cancer ynglŷn â gofal am gleision wedi gadael yr Ysbyty: ac ar ran y Gymdeithas Brydeinig Gwynegon sy'n rhoi gwasanaeth arbennig i'w haelodau sydd yn dioddef gan y dolur. Cyd-syniodd y Cyngor â chais y Gymdeithas Brydeinig Epilepsi i roi adroddiad ar ymweliadau â phobl yn ddioddef oddiwrtho gyda phwyslais ar "Y Problemau Cymdeithasol sy'n deillio o'r haint."

(c) **Ysgrifenna Swyddogion Elusen Ysbytyau yn fynych ar ran cleigion sydd mewn ysbyty neu ynghylch cyflwr a lles cleigion wedi gadael yr ysbyty.**

TRYCHINEBAU CENEDLAETHOL

Ymchwiliadau Helpu ynglyn a'r Llifogydd

Rhoddyd help ar unwaith i'r neb a ymbolai am eu perthnasau yn ardaloedd y llifogydd, gan gynnwys yr Is-Almaen. Deurhpwyd i gysylltiad â chynrychiolydd yr Iseldiroedd a'r Llysgennad Is-Almaenig.

AMRYW

Yr ydym wedi cydweithredu â Gweinyddiaethau'r Llywodraeth a Chyngor Prydain, a threfnu ymchwiliadau i fyfyrwyr tramor â Chlybiau, a Sefydliadau, a Chyngorau Cymdeithas Wledig, a Chynadleddau, a rhoesom iddynt gyfleusterau i feddiannu gwybodaeth benodol am drefnyddiaeth y Gwasanaeth Cymdeithasol Gwirfoddol yng Nghymru. Estyanodd y Cyngor y cyfleusterau hyn yn ystod y flwyddyn i fyfyrwyr o'r Almaen, Yr Unol Daleithiau, India'r Gorllewin, Nigeria, India, a Phacistan. Cyd-weithreda'r Cyngor hefyd ag Adran Economeg a Gwasanaeth Cymdeithasol Coleg y Brifysgol, Caerdydd. O dan ofal swyddogion y Cyngor astudia'r myfyrwyr waith y Cyngor, a gwaith mudiadau gwirfoddol, ac ymwelant â Chlybiau a Chanolfannau drwy'r Debeudir.

CRONFA APEL AWR Y PLANT GAN Y GORFFORAETH DDARLLEDU BRYDEINIG

O bosibl mai'r gwaith a roes fwyaf o lawenydd yn ystod y flwyddyn i Swyddogion y Cyngor oedd gweinyddu'r Gronfa i blant methedig neu afiach, neu o aelwydydd anffortunos. Cafodd 801 plentyn ei rodd o'r gronfa o £998 a roes Pwyllgor Apel y Gorfforaeth dan ein gofal, ac ymwelwyd â phob un o'r plant hyn, i weled sut i gyfarfod â'i angen neu i roi iddo'i ddewis.

Datgenir hanfod y gwaith hwn mewn modd sy'n cynhyrfu'r galon yn y dyfyniad canlynol o lythyr geneth fethedig :-

"Diolch yn fawr i chi am y rhodd ffrog oedd i fynd i barti a phais i'w rhoi odani dyna jest y peth yr wyf wedi bod yn gobeithio ei gael gwisg laes i fynd i barti bydd yn cuddio 'nghoesau rhyfedd a'm sgidiau yna byddaf yn edrych fel y plant eraill yn y parti."

ADRODDIAD NATHAN

Am fod Adroddiad Pwyllgor Nathan ar y Ddeddf a'r Arfer ynglyn ag Ymddiriedolaethau Elusen yn codi cwestiynau pwysig, trefnasom i'r Gwir Anhydeddus yr Arglwydd Nathan annerch Cynhadledd o Gymdeithasau Gwirfoddol ac eraill sy'n feddiannol ar ciddo ac arian fel Ymddiriedolwyr Elusen.

Cynhaliwyd y Gynhadledd, y gyntaf o'i bath, yn y Neuadd Sir, Caerdydd, Chwefror 9, 1953, a chroedd ddiddordeb mawr. Analluogwyd yr Arglwydd Nathan gan ddamwain i fod yno, a chafwyd araith gan Mrs. K. W. Jones-Roberts, Blaenau Ffestiniog, sy'n Gyngborydd Sir, ac yn aelod o Bwyllgor Nathan. Mawr yw ein diolch iddi am ei braslun clir a brwd o argymhellion yr Adroddiad.

DIOLCHIADAU

Y mae'r Cyngor yn dra diolchgar i Weinyddiaethau'r Llywodraeth ac i'r Awdurdodau ac i'r Ymddiriedolaethau, am ei gwneuthur yn bosibl drwy'r

grantiau, inni gynnal ein gwaith. Hyfrydweh yw cyfeirio at gymwynaswr newydd, Cymdeithas Lles y Diwydiant Glo, a gyflwynodd inni rodd hael o £100 ar ein gwaith.

Diolchwn yn fawr hefyd i Gymdeithas Ddrama Morgannwg am ei Tharian hardd yn wobwr yng nghystaddeuaeth Cwmniau Drama Clybiau'r Merched. Ceidw Cwbr buddugol yr Wyl Flynyddol y Darian am y flwyddyn, a chertfir y fuddugoliaeth arni i aros. Bydd gweithred hael y Gymdeithas yn symbylu'r Clybiau i ddatblygu'n fwy fyth eu gweithgareddau ym myd y ddrama.

TANYSGRIFWYR

Tyfodd rhestr y Tanysgrifwyr yn sylweddol, a mawr yw ein llawenydd o allu cofnodi hynny. Heblaw cefnogaeth llawer o unigolion caredig, daeth cyfraniadau hael oddi wrth Gwmniau Diwydiannol, ac hefyd, am y tro cyntaf, oddiwrth rai o'r prif Fanciau.

Y mac hyn oll yn galondid mawr ar adeg pan yw'r cyrif swyddogol sy'n rhoddi'r grantiau yn gorfod cynilo'n enbyd, a chyfran helaethach o'r costau yn gorfod dibynnu ar roddion gwirfoddol.

CLYBIAU'R GWYR A'R GWRAGEDD

Cydnabyddwn yn ddiolchgar gyfraniadau helaeth aelodau ein Clybiau. Dengys hyn fesur eu gwerthfawrogiad clodwiw o wasanaethau hyfforddi a gwasanaethau eraill y Cyngor ar eu cyfer.

MARW

Cawsom goileid drom yn ystod y flwyddyn ym marw ein Cadeirydd, Syr Leonard Twiston Davies, K.B.E., D.L. Gwerthfawrogid bob amser ei ymweliadau â'r swyddfa, a'i arweiniad a'i gefnogaeth i'n holl ymdrechion. Beirniadau yn adeiladol a charedig; a threwy ei gwrteisi cyson a'i ystyriaeth cadwodd ei gyfeillion dros Gymru gyfan.

Y CADEIRYDD NEWYDD

Yr ydym yn ffodus o gael Cymro mor ddoeth ac amlwg â Syr Wynn Wheldon, K.B.E., D.S.O. yn Gadeirydd. Y mac barn graff Syr Wynn, a'i oddefgarwch, a'i wybodaeth eang yn ysbrydiaeth i bawb a gaiff y fraint o weithio gydag ef a throsto.

Y STAFF

Ni allwn offen ein hadroddiad heb gyfeirio at waith ein swyddogion a'n staff. Dymuna'r Cyngor gofnodi ei werthfawrogiad dwfn o'r gwaith a wnathant, a'r trylwyrdwr a'r cydymdeimlad a ddangosasant yn eu gwasanaeth.

BALANCE SHEET—31st MARCH, 1953.

	£	s.	d.
CREDIT BALANCES ON THE FOLLOWING ACCOUNTS:			
Rural Services	216	8	4 1/2
Glamorgan County Drama Committee	37	10	0
Standing Conference of Women's Clubs	161	2	8
B.B.C. Wireless Appeal Fund	118	12	10
SUNDRY CREDITORS	53	47	11
CASH DUE BANK	925	6	1
	<hr/>		
	£1,512	18	5
	<hr/>		
DEBIT BALANCES ON THE FOLLOWING ACCOUNTS:			
General Funds	258	12	3
Imprest Account	45	0	0
Social Workers Conference	2	1	0
SUNDRY DEBITORS	1,207	5	2
	<hr/>		
	£1,512	18	5
	<hr/>		

WYNN P. WHELDON, *Chairman.*
 JOHN H. BRUCE, *Treasurer.*
 J. B. EVANS, *Secretary.*

REPORT OF THE AUDITORS TO THE MEMBERS OF THE COUNCIL OF SOCIAL SERVICE FOR WALES AND MONMOUTHSHIRE (INC.)

We have obtained all the information and explanations which to the best of our knowledge and belief were necessary for the purposes of our audit. In our opinion proper books of account have been kept by the Council so far as appears from our examination of these books. We have examined the above Balance Sheet and Annexed Income and Expenditure Accounts which are in agreement with the Books of Account. The Balance Sheet is exclusive of equipment including office furniture taken over by the Council from its predecessors and any expenditure of similar nature made by the Council is written off in the Expenditure Accounts referred to.

In our opinion and to the best of our information and according to the explanations given us and subject to the remarks made above, the said Accounts give the information required by the Companies Act, 1948, in the manner so required and the Balance Sheet gives a true and fair view of the affairs of the Council as at 31st March, 1953, and the Income and Expenditure Accounts give a true and fair view of the transactions for the year ending that date.

5, WINDSOR PLACE, CARDIFF.
 24th September, 1953.

WENTWORTH PRICE, GADSBY & CO.,
Auditors.

ACCOUNT No. 1
RURAL SERVICES ACCOUNT FOR THE YEAR ENDED 31st MARCH, 1953

CR.

	EXPENDITURE DURING THE YEAR			INCOME DURING THE YEAR		
	£	s.	d.	£	s.	d.
SALARIES:						
Director and Assistant Director	800 0 0	453 17 7
Administrative Officers	1,083 6 8	7,200 0 0
Clerical	808 0 0	300 0 0
Rural Officers	1,200 0 0			
TRAVELLING AND SUBSISTENCE:						
Director and Assistant Director	500 0 0			
Administrative Officers	240 15 6			
Rural Officers	830 15 2			
Administrative Costs	1,472 3 0			
State Insurance	102 0 0			
Superannuation	119 0 0			
Stage Equipment	110 2 0			
Drama Advisory Visits, Schools and Courses	264 17 0			
Conferences	103 3 10			
Miscellaneous	13 5 6			
By CREDIT BALANCE, 31st MARCH, 1953	216 8 11			
			£7,953 17 7			£7,953 17 7

ACCOUNT No. 2

DR. MEN'S AND WOMEN'S CLUBS ACCOUNT FOR THE YEAR ENDED 31st MARCH, 1953 CR.

EXPENDITURE DURING THE YEAR		INCOME DURING THE YEAR	
	£ s. d.	£ s. d.	
SALARIES—			
Organisers	2,474 6 4	Grant—Glamorgan County Council
Instructors	3,029 4 3	Carmarthen County Council
TRAVELLING EXPENSES AND SUBSISTENCE :			
Organisers	868 14 1	
Instructors	4,295 19 0	
Club Equipment	27 3 4	
Superannuation and State Insurance	374 14 2	
Administration—Allocated Expenditure		
Salaries—Executive and Administrative	775 0 0	
Salaries—Clerical	360 0 0	
Travelling Expenses and Subsistence—Executive and Administrative	219 13 5	By BALANCE—DEFICIT TRANSFERRED TO THE COUNCIL'S GENERAL FUNDS
Proportion of Administrative Costs allocated	600 0 0	3,054 11 7
		£9,504 11 7	£9,504 11 7

ACCOUNT No. 3.
DR. COMMUNITY CENTRES ACCOUNT FOR THE YEAR ENDED 31st MARCH, 1953. CR.

EXPENDITURE DURING THE YEAR	£	s.	d.	INCOME DURING THE YEAR	£	s.	d.
Salaries, Community Centres Officers	800	0	0	Grant—Ministry of Education	1,628	0	0
Travelling and Subsistence, Community Centres Officers	284	15	6				
Clerical Assistance	260	0	0				
Superannuation and State Insurance	67	7	0				
Salaries, Executive Officers—apportioned	225	0	0				
Travelling and Subsistence—Executive Officers—apportioned	100	0	0				
Administrative Costs	260	2	0				
Miscellaneous	21	2	2	BALANCE—DEFICIT TRANSFERRED TO GENERAL FUNDS	582	6	8
	<u>£2,010</u>	<u>6</u>	<u>8</u>		<u>£2,010</u>	<u>6</u>	<u>8</u>

ACCOUNT No. 4.
DR. OLD PEOPLE'S WELFARE ACCOUNT FOR THE YEAR ENDED 31st MARCH, 1953. CR.

EXPENDITURE DURING THE YEAR	£	s.	d.	INCOME DURING THE YEAR	£	s.	d.
Salaries : Old People's Welfare Officer	525	0	0	National Corporation for the care of Old People— Grant	1,000	0	0
Clerical Assistance	160	0	0				
State Insurance	11	0	0				
Organiser's Travelling and Subsistence	273	18	8				
Expenses, Committee Members	6	18	0	DEFICIT TRANSFERRED TO GENERAL FUNDS	147	18	10
Administrative Costs—Allocated	171	2	2				
	<u>£1,147</u>	<u>18</u>	<u>10</u>		<u>£1,147</u>	<u>18</u>	<u>10</u>

ACCOUNT No. 5.

DR. GLAMORGAN COUNTY DRAMA COMMITTEE ACCOUNT FOR THE YEAR ENDED 31st MARCH, 1953. CR

EXPENDITURE DURING THE YEAR		INCOME DURING THE YEAR	
	£ s. d.		£ s. d.
Organiser's Salary	350 0 0	BALANCE BROUGHT FORWARD	56 5 0
Organiser's Travelling and Subsistence	50 14 2	Carnegie United Kingdom Trust—Grant	162 10 0
State Insurance	11 0 0	Proportion of Expenditure borne by Council	230 9 2
BALANCE—ONE QUARTER'S GRANT PAID IN ADVANCE	37 10 0		
—CARRIED FORWARD			
	<u>£449 4 2</u>		<u>£449 4 2</u>
		To BALANCE BROUGHT FORWARD	£37 10 0

ACCOUNT No. 6.

GENERAL FUNDS ACCOUNT FOR THE YEAR ENDED 31st MARCH, 1953.

C.R.

DR.	£	s.	d.	£	s.	d.	CR.
EXPENDITURE DURING THE YEAR:							
Proportion of Voluntary Income allocated to Rural Work				300	0	0	
DEFICITS ON OTHER ACCOUNTS TRANSFERRED:							
Men's and Women's Clubs Account	3,054	11	7				729 11 1
Community Centres Account	582	6	8				1,026 11 10
Old People's Welfare Account	147	18	10				667 0 0
Miscellaneous				3,784	17	1	250 0 0
				22	3	0	500 0 0
							100 0 0
INCOME DURING THE YEAR:							
Subscriptions and Donations							
Donations from Social Service Clubs							
GRANTS:							
Ministry of Health, per N.C.S.S.,							
National Council of Social Service for Services rendered							
Carnegie United Kingdom Trust							
Coal Industry Social Welfare Organisation (South Western Division Welfare Committee)							
AFFILIATION FEES:							
Rural Community Councils							18 18 0
Community Associations							13 2 0
CREDIT BALANCES ON OTHER ACCOUNTS:							
TRANSFERRED:							
Workshop Account							287 5 1
Administration Account							79 17 11
Drama Library Service Account							276 4 9
Sundry Balances							9 2 2
Rent—Sub-letting							652 9 11
Publications							130 0 0
Bank Interest							11 6 3
Miscellaneous							60 7 3
BALANCE—DEFICIT AT END OF YEAR				350	7	5	30 8 11
				£4,457	7	6	£4,457 7 6

DEBIT BALANCE AT MARCH 31st, 1952

£4,457 7 6

SUBSCRIPTIONS AND DONATIONS FOR THE YEAR ENDED
31st MARCH, 1953

		£	s.	d.
Lt.-Col. the Hon. Ralph Beaumont	2	2	0	
Mr. E. C. Bilson	1	1	0	
Hon. J. H. Bruce	20	0	0*	
Mr. Stanley Carpenter	1	1	0	
Sir John Cecil-Williams	1	1	0	
Sir Wynne Cemlyn-Jones	1	1	0	
A. D. Russell Clarke	2	2	0	
Mr. Max Corne	2	2	0	
Captain Geoffrey Crawshay	5	5	0*	
Mr. J. Dolfryn Davies	1	1	0	
Mrs. H. Glyn Davies	2	2	0	
Mr. T. Glyn Davies	1	1	0	
Mr. A. B. Oldfield Davies	2	0	0*	
Mr. J. H. Twiston Davies	1	0	0	
Sir Leonard Twiston Davies	1	1	0	
Margaret Davies Charity Trustees	25	0	0	
Gwendoline Davies Charity Trustees	25	0	0	
Mrs. M. L. Englehart	1	0	0	
Mr. Edgar Evans	1	0	0	
Dr. Griffith Evans	3	3	0	
Mr. J. B. Evans	2	2	0	
Lt.-Col. and Mrs. Llewelyn Evans	2	2	0	
Dr. William George	2	2	0	
Mrs. Goulden		2	6	
Dr. Wyn Griffith	1	1	0	
Mr. A. K. Harrie	1	0	0	
Alderman Alfred E. Hughes	1	1	0	
Ircnc, Countess Plymouth	1	1	0	
Mrs. Jennie Jenkins	1	1	0	
Mrs. D. B. Jones	3	3	0	
Miss Eira Jones	2	2	0	
Mr. H. Jones-Davies	1	1	0	
Mr. W. J. Jones (Webbs, Aberbeg)	1	1	0	
Lord Kemsley	10	10	0	

SUBSCRIPTIONS AND DONATIONS—*continued.*

	£	s.	d.
Mrs. G. Levy	1	1	0*
Mrs. M. Liedtke	2	2	0
Lady Megan Lloyd George	1	1	0
Mr. J. F. Macdonald	1	1	0
Sir Ewen J. Maclean	1	1	0
Lord Merthyr	5	5	0*
Montgomeryshire County Council	1	1	0
Mr. John Morgan	5	5	0
Dr. Sydney Northcote	1	1	0
Mr. P. F. Parkinson	2	2	0
Mr. H. Parry		10	0
Pontycymmer and District Nursing Association	25	0	0
Col. Evan Powell	1	1	0
Mr. R. E. Presswood	1	1	0
Mr. A. G. Prys Jones	1	0	0
Mr. D. S. Pugh	5	5	0
Miss Frances Rees	1	10	0
Alderman W. J. Saddler	2	2	0*
Mrs. M. Sessions	5	0	0
Mr. T. D. Slingsby-Jenkins	10	0	0
Mr. W. Smith	4	4	0
Sir Geoffrey Summers	2	0	0*
Dr. Brinley Thomas	2	2	0
Mr. S. O. Thomas	1	1	0
Mr. W. P. Thomas	10	0	0*
Dr. William Thomas	15	0	0
Mr. Wynford Vaughan Thomas	2	0	0
Sir M. Venables-Llewellyn	10	0	0
Mr. D. C. Watts	1	0	0
Sir Robert Webber	20	0	0
Sir Wynn P. Wheldon	5	15	8
Mr. Iestyn R. Williams	1	1	0
Mrs. R. A. Williams	2	2	0

SUBSCRIPTIONS AND DONATIONS—*continued.*

£ s. d.

Firms and Business Houses

C. H. Bailey Ltd.	1	1	0
Boots Cash Chemist (Western) Ltd.	5	5	0
British Celanese Ltd.	5	5	0
British Oxygen Ltd.	3	3	0
Ely Brewery Co. Ltd.	3	3	0
Arthur Guinness, Son and Co (Park Royal) Ltd.	10	0	0
Wm. Hancock and Co. Ltd.	1	1	0
James Howell and Co. Ltd.	2	2	0
Hunt, Partners Ltd.	3	3	0
Mitchells and Butlers (South Wales) Ltd.	1	1	0
Monopol Leather Products Ltd.	1	0	0
National Oil Refineries Ltd.	10	0	0
Replacement Cleaners Ltd.	2	2	0
Rubery Owen and Co. Ltd.	2	2	0
Simmonds Aerocessories Ltd.	10	10	0
Spillers Ltd.	3	3	0
Thomas and Evans Ltd.	10	10	0
Wales and Monmouthshire Industrial Estates Ltd.	3	3	0

Banks

Lloyds Bank Ltd.	50	0	0
Midland Bank Ltd.	50	0	0
National Provincial Bank Ltd.	50	0	0

Trade Unions

Transport and General Workers	5	5	0
-------------------------------	----	----	----	----	----	---	---	---

Amount recoverable from Inland Revenue on Covenanted Subscriptions	80	4	11
--	----	----	----	----	----	----	---	----

SUBSCRIPTIONS AND DONATIONS—*continued.*

£ s. d.

Contributions from Associated Organisations

Caernarvonshire County Playing Fields Association ..	£10	0	0
Glamorgan Association of Parish Councils ..	20	0	0
Glamorgan Playing Fields Association ..	83	0	0
Flintshire Association of Parish Councils ..	10	0	0
Merthyr Educational Settlement ..	15	0	0
		138	0
			0
			1
			1

* *Covenanted* (Cyfamodwyd)

